

**Eitem: 08**

**Teitl: Perfformiad yn erbyn ein Cynllun Blynyddol – Chwarter 4**

<b>Gweithredu / Action required</b>	Nodyn er gwybodaeth
<b>Amseru / Timing</b>	Arferol
<b>Argymhelliad / Recommendation</b>	I'w nodi a'i drafod yn ôl yr angen.
<b>Risg / Risk</b>	Bydd unrhyw risgiau sy'n ymwneud â'n hanallu i gyflawni, adrodd ar, a chyfleu ein heffaith yn effeithiol yn cael niwed sylweddol i'n henw da yn ogystal â methu â chyflawni ein rhwymedigaethau o fewn Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) a'n Dogfen Fframwaith gyda'n tîm Partneriaeth o fewn Llywodraeth Cymru  Caiff y risgiau hyn eu monitro drwy'r fframweithiau adrodd perfformiad a risg a'u huwchgyfeirio drwy'r ffynonellau sicrwydd priodol.
<b>Cyllid / Finance</b>	O fewn y gyllideb
<b>Amcan Cynllun Corfforaethol / Corporate Plan Objective</b>	Pob amcan o fewn Cynllun Blynyddol 2025-2026
<b>Cydraddoldeb / Equality</b>	Caiff unrhyw bolisi, newidiadau proses, prosiect neu ddigwyddiadau mawr eu hasesu am eu heffaith ar wahanol gymunedau gan ddefnyddio ein Hasesiad Effaith Integredig wedi'i ddiweddarau.
<b>Cyfathrebu / Communications</b>	Ticiwch un o'r blychau canlynol os bydd y gweithgaredd hwn yn cael effaith ar: <b>Mewnol:</b> ein pobl <input checked="" type="checkbox"/> <b>Allanol:</b> ein cwsmeriaid/partneriaid/rhanddeiliaid <input checked="" type="checkbox"/> <b>Allanol:</b> enw da ein sefydliad <input checked="" type="checkbox"/>
<b>Cymeradwyaeth / Approval/Clearance</b>	Ben Eaton, Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu

<b>Trafodaethau/Penderfyniadau Blaenorol / Previous Discussions/Decisions</b>	Eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd uwch arweinyddiaeth a'r Bwrdd.
<b>Awdur/Cyflwynwr / Author/Presenting</b>	Ben Eaton, Cyfarwyddwr Strategol Strategaeth Sefydliadol ac Ymgysylltu
<b>Dyddiad / Date</b>	<b>13 Mai 2026</b>

**Cefndir / Background**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg i'r Bwrdd o berfformiad y sefydliad ar gyfer y flwyddyn 2025/2026, gan gynnwys data perfformiad manwl a chanlyniadau o chwarter olaf 2025/26 (Ch4).

**Manylion / Detail**

**Cynnydd yn erbyn ein hamcanion strategol o fewn y Cynllun Blynyddol.**

	Statws
0. Ein gwaith bob dydd	
1. Gyrru sgwrs genedlaethol am ddyfodol gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol	
2. Gwthio am Wasanaethau sy'n Diwallu Anghenion Pobl	
3. Cydweithio'n Well	
4. Helpu pobl a gwasanaethau i ddefnyddio technoleg mewn ffyrdd sy'n gweithio iddyn nhw	
5. Tyfu a gwella fel sefydliad.	

Roedd y cynnydd yn erbyn y cynllun strategol ar ddiwedd y flwyddyn yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda 4 o'r 5 blaenoriaeth strategol yn symud ymlaen yn ôl y cynllun. Arhosodd Blaenoriaeth 5 yn ambr, gyda gwaith pellach yn ofynnol yn 2026/2027 gan adlewyrchu pwysau parhaus ar draws sawl ffrwd waith galluogi a datblygu sefydliadol sy'n gysylltiedig â datblygu'r gweithlu, seilwaith sefydliadol, llywodraethu gwybodaeth, systemau digidol a threfniadau adrodd.

**Prif gyflawniadau yn chwarter 4 (Ionawr i Fawrth 2026)**


Mae dros 2717 o bobl wedi ymgysylltu â ni rhwng Ionawr a Mawrth 2026 .

Rydym wedi:


- Cymryd rhan mewn 151 o weithgareddau ymgysylltu
- Cynnal 16 o ymweliadau ymgysylltu ar y safle
- Gwneud 118 o gynrychioliadau
- Ymateb i 5 o ymgynghoriadau neu alwadau am dystiolaeth

- Wedi bod yn rhan – ar gyfartaledd – o 35 o newidiadau gwasanaeth bob mis
- Ar gyfartaledd, gweithio gyda thua 66 o bartneriaid y mis
- Cefnogi pobl i fwrw ymlaen â dros 1293 o bryderon drwy ein gwasanaeth eiriolaeth cwynion.

## Tueddiadau dros 2025/26




Er bod cyfanswm y gweithgareddau ymgysylltu wedi gostwng ychydig dros y flwyddyn, mae timau rhanbarthol a chenedlaethol wedi cyflawni dros 140 o weithgareddau yn gyson bob chwarter.



Wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen bu gostyngiad yn nifer y bobl yr ymgysylltwyd â nhw, bu cynnydd bach rhwng chwarter 3 a chwarter 4. Mae hyn yn adlewyrchu natur dymhorol rhywfaint o'n gweithgaredd ymgysylltu, yn ogystal â mabwysiadu

dulliau ymgysylltu newydd sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu mwy targedig a all ddarparu mewnwelediad a dealltwriaeth fwy pwerus o brofiadau pobl o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.



Mae nifer y cynrychioliadau a wnaed yn parhau'n gymharol gyson o chwarter i chwarter.

## Trosolwg o chwarter 4 2025/26

Rhanbarth	Gweithgareddau ymgysylltu	Ymweliadau	Cynrychioliadau	Newid Gwasanaeth	Achosion eiriolaeth Agored Gyfartalog	Nifer wedi ymgysylltu â
Caerdydd a'r Fro	26	3	23	30	134	464
Cwm Taf Morgannwg	36	7	3	35	76	309
Gwent	8	2	23	9	181	213
Powys	8	4	24	17	108	190
CNPT ac Abertawe	14	0	1	0	312	412
Gogledd Cymru	40	0	37	10	244	601

Gorllewin Cymru	13	0	7	4	238	247
Cenedlaethol	6	0	0	0	0	281
<b>CYFANS YMIAU</b>	151	16	118	105	1293	2717

Themâu'r hyn y mae pobl wedi'i ddweud wrthym yn ystod y cyfnod hwn:

## Beth sy'n gweithio'n dda?

Parhaodd pobl i rannu enghreifftiau o staff tosturiol ac ymroddedig ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Roedd adborth cadarnhaol yn cynnwys:

- enghreifftiau o staff yn mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau i gefnogi pobl yn ystod profiadau anodd
- profiadau cadarnhaol meddygfeydd teulu lleol lle rhoddwyd blaenoriaeth i barhad a chyfathrebu
- enghreifftiau o gefnogaeth effeithiol gan sefydliadau cymunedol a gwirfoddol
- profiadau cadarnhaol o fewn gwasanaethau iechyd a mamolaeth menywod
- enghreifftiau o gydweithio rhwng gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi anghenion cymhleth
- gwasanaethau lle'r oedd pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwranddo, eu bod yn cael gwybodaeth ac yn cael eu trin ag urddas.

Roedd pobl yn gyson yn tynnu sylw at y gwahaniaeth y mae cyfathrebu, caredigrwydd a pharhad yn ei wneud i'w profiad o ofal.

## Angen gwella

### Gofal brys ac argyfwng

Roedd pwysau gofal brys ac argyfwng yn un o'r themâu cryfaf yn ystod Chwarter 4.

Disgrifiodd y bobl:

- arosiadau hir mewn adrannau brys
- gofal coridorau a gorlenwi

- anawsterau wrth gael mynediad at ddiweddariadau a gwybodaeth
- oedi wrth drosglwyddo ambiwlansys
- pryderon ynghylch urddas a phreifatrwydd
- oedi mewn trefniadau rhyddhau a gofal ymlaen.

Parhaodd pobl hefyd i ddisgrifio effaith emosiynol ansicrwydd ac aros hir mewn lleoliadau gofal brys.

## **Llwybrau iechyd meddwl a niwroddatblygiadol**

Parhaodd iechyd meddwl i fod yn faes pryder sylweddol ledled Cymru.

Clywsom:

- pryder parhaus ynghylch arosiadau hir ar gyfer asesiadau ADHD ac ASD
- cymorth cyfyngedig sydd ar gael wrth aros am asesiad neu driniaeth
- pryderon ynghylch trefniadau ymateb i argyfwng
- heriau wrth symud rhwng gwasanaethau plant ac oedolion
- anawsterau cyfathrebu rhwng asiantaethau a gwasanaethau
- pryderon ynghylch amgylcheddau cleifion mewnol a chefnogaeth therapiwtig.

## **Mynediad at wasanaethau**

Parhaodd problemau mynediad yn thema fawr drwy gydol y chwarter.

Parhaodd pobl i adrodd:

- anhawster cael apwyntiadau meddyg teulu
- heriau mynediad deintyddol parhaus
- arosiadau hir am ddiagnosteg a gofal wedi'i gynllunio
- allgau digidol sy'n effeithio ar fynediad at wasanaethau
- rhwystrau trafndiaeth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig
- oedi mewn atgyfeiriadau a chyfathrebu dilynol.

## **Cyfathrebu ac urddas**

Parhaodd cyfathrebu i fod yn broblem barhaus ar draws nifer o wasanaethau a llwybrau.

Disgrifiodd pobl:

- yn teimlo fel na bod rhywun yn gwrando arnynt

- gwybodaeth anghyson
- cyfathrebu gwael yn ystod oediadau
- diffyg cyfranogiad mewn penderfyniadau
- pryderon ynghylch urddas a pharch mewn amgylcheddau dan bwysau.

## Beth sy'n gweithio'n dda?

Parhaodd pobl i rannu enghreifftiau o staff tosturiol ac ymroddedig ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Roedd adborth cadarnhaol yn cynnwys:

- enghreifftiau o staff yn mynd y tu hwnt i ddisgwyliadau i gefnogi pobl yn ystod profiadau anodd
- profiadau cadarnhaol meddygfeydd teulu lleol lle rhoddwyd blaenoriaeth i barhad a chyfathrebu
- enghreifftiau o gefnogaeth effeithiol gan sefydliadau cymunedol a gwirfoddol
- profiadau cadarnhaol o fewn gwasanaethau iechyd a mamolaeth menywod
- enghreifftiau o gydweithio rhwng gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi anghenion cymhleth
- gwasanaethau lle'r oedd pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwranddo, eu bod yn cael gwybodaeth ac yn cael eu trin ag urddas.

Roedd pobl yn gyson yn tynnu sylw at y gwahaniaeth y mae cyfathrebu, caredigrwydd a pharhad yn ei wneud i'w profiad o ofal.

## Cynrychioliadau

Parhaodd gweithgaredd cynrychiolaeth drwy gydol Chwarter 4 ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Roedd y prif themâu yn cynnwys:

Thema	Materion allweddol
Gofal brys ac argyfwng	Oedi, gofal coridorau, cyfathrebu a phwysau rhyddhau
Gwasanaethau Iechyd Meddwl	Amseroedd aros, cefnogaeth argyfwng, trefniadau pontio

Mynediad gwledig	Rhwystrau trafndiaeth, newidiadau dros dro i wasanaethau a phellteroedd teithio
Iechyd Menywod	Cymorth, mynediad a chyfathrebu ar gyfer y menopos
Offthalmoleg a gofal wedi'i gynllunio	Apwyntiadau a thriniaeth wedi'u gohirio
Pryderon cartrefi gofal	Urddas, diogelwch a safonau gofal
Mynediad at wasanaethau	Pryderon am feddygon teulu, deintyddion a llwybrau atgyfeirio

## **Uchafbwyntiau a chanlyniadau ymgysylltu: Egwyddorion y Bobl ac ymgysylltiad y Senedd**

Yn Chwarter 4 lanswyd maniffesto Blaenoriaethau'r Bobl a'n Hegwyddorion y Bobl yn y Senedd. Daeth y gwaith hwn â thystiolaeth ynghyd a gasglwyd gan filoedd o bobl ledled Cymru.

Mae'r Egwyddorion yn cael eu defnyddio fwyfwy i gefnogi sgysiau gyda phartneriaid, rhanddeiliaid a gwasanaethau ynghylch sut y dylai iechyd a gofal cymdeithasol da deimlo o safbwynt y cyhoedd.

### **Gwrando arnom ni**

Fe wnaethon ni gyflwyno'r prosiect *Gwrando Arnom Ni* i gryfhau dealltwriaeth o sut olwg sydd ar ymgysylltu ystyrion a sut mae'n teimlo i bobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ledled Cymru. Gan weithio drwy bartneriaid trydydd sector dibynadwy, archwiliodd y prosiect sut mae pobl eisiau ymgysylltu, beth sy'n eu helpu i deimlo eu bod yn cael eu clywed yn wirioneddol, a beth sy'n meithrin ymddiriedaeth, hygyrchedd a pharch mewn prosesau ymgysylltu.

Roedd y mewnwelediadau a gasglwyd yn canolbwyntio ar brofiadau byw a byddant yn llywio arferion ymgysylltu yn y dyfodol, gan sicrhau bod lleisiau sy'n aml yn cael eu hanwybyddu'n yn cael eu deall yn well a'u hadlewyrchu mewn penderfyniadau iechyd a gofal cymdeithasol.

## **Call4Concern**

Yn ystod mis Mawrth, fe wnaethon ni gynnal grŵp ffocws ar-lein gyda rhai o'n gwirfoddolwyr o bob cwr o Gymru a thîm Call4Concern o Perfformiad a Gwella GIG Cymru ynglŷn â'r deunyddiau gweithredu a fyddai ar gael mewn lleoliadau cleifion mewnol. Yn y sesiwn, canolbwyntiodd y drafodaeth ar yr eiriad a'r delweddau a ddefnyddiwyd a defnyddiwyd y mewnbyn hwn i greu fersiwn bellach o ddeunyddiau sydd wedi'u rhannu â byrddau iechyd o bob cwr o Gymru mewn gweithdy ym mis Ebrill.

## **Systemau monitro lithiwm a nyrsio ardal (Powys)**

Tynnodd cynrychiolaeth yn ymwneud ag oedi a dryswch ynghylch monitro lithiwm sylw at bryderon ehangach ynghylch cyfathrebu a chydlynu rhwng gwasanaethau. Yn dilyn uwchgyfeirio, gwnaed newidiadau i drefniadau adolygu lleol a dechreuwyd trafodaethau ehangach ynghylch prosesau profi gwaed nyrsys ardal a dysgu o'r system.

## **Pryderon yr adran achosion brys (Gwent)**

Cafodd pryderon a godwyd drwy weithgarwch ymgysylltu ac eiriolaeth yn ymwneud â phwysau yn yr adrannau brys a phrofiad gwael cleifion eu huwchgyfeirio'n uniongyrchol i uwch arweinyddiaeth o fewn y Bwrdd Iechyd. Roedd y rhain yn cynnwys materion yn ymwneud ag amseroedd aros, cyfathrebu, urddas a llif trwy lwybrau gofal brys.

Rydym mewn sgysiau gweithredol gyda'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Cyfarwyddwyr ynghylch y camau gweithredu y byddant yn ymrwmo i'w cymryd yn dilyn ein cynrychioliadau, a bydd y rhain yn cael eu cynnwys mewn cynllun gweithredu gwella. Ar ôl cadarnhau a gweld y cynllun gweithredu, byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau a manylion y camau a gymerwyd o ganlyniad uniongyrchol i'n hymyrraeth.

## **Pryderon cartrefi gofal (CTM)**

Arweiniodd pryderon a godwyd drwy weithgarwch ymgysylltu yn ymwneud â safonau gofal mewn cartref gofal at uwchgyfeirio'r mater i'r Awdurdod Lleol ac atgyfeiriad i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

Mae AGC wedi ymateb drwy nodi'r pryderon ar eu briff ar gyfer yr arolygiad nesaf o'r cartref gofal ac mae'r Awdurdod Lleol wedi codi ein pryderon gyda rheolwr y Cartref Gofal a gyfarfu â'r unigolyn a gododd y pryderon er mwyn gwneud gwelliannau.

Gwnaethom ymweliadau dilynol i archwilio'r problemau i weld a oeddent yn barhaus neu'n lleol, ac rydym yn falch o adrodd na chodwyd yr un o'r problemau hyn ar ôl cynnal ymweliadau dilynol.

## **Achosion eiriolaeth cwynion**

Parhaodd timau eiriolaeth cwynion i gefnogi llwythi achosion uchel a chynyddol gymhleth yn ystod Chwarter 4.

Roedd y prif themâu yn cynnwys:

- methiannau cyfathrebu
- oedi diagnosis a thriniaeth
- llwybrau iechyd meddwl
- mynediad at wasanaethau
- trefniadau rhyddhau
- pryderon ynghylch diogelwch cleifion
- cydlynu rhwng nifer o wasanaethau
- oedi wrth ddilyn a diweddarau.

Roedd llawer o achosion yn ymwneud â nifer o sefydliadau neu bryderon hirdymor lle'r oedd pobl yn teimlo'n flinedig, heb gael eu clywed neu'n ansicr sut i lywio'r system.

## **Casgliad**

Mae Chwarter 4 wedi dangos cyflawniad cynaliadwy ar draws gweithgarwch ymgysylltu, eiriolaeth, cynrychiolaeth a dylanwadu.

Drwy gydol y cyfnod hwn, parhaodd pobl i rannu negeseuon clir a chyson am yr hyn sydd bwysicaf iddyn nhw wrth gael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Er bod llawer o bobl wedi disgrifio profiadau cadarnhaol a staff tosturiol, mae pryderon cylchol ynghylch mynediad, cyfathrebu, amseroedd aros, cymorth iechyd meddwl ac urddas yn parhau i adlewyrchu pwysau ar y system ehangach.

Mae cyhoeddi Egwyddorion y Bobl a gwaith y maniffesto wedi darparu fframwaith cenedlaethol cryf ar gyfer cyfleu'r hyn y mae pobl ledled Cymru yn ei ddisgwyl gan wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Arweiniodd y cyfnod cyn yr etholiad at anawsterau wrth geisio ymgysylltu â gwasanaethau i ymrwymo i gamau gweithredu mewn ymateb i'n cynrychioliadau gan fod rhai o'r farn na fyddai'n ddoeth ymrwymo i newid yn ystod cyfnod o ansicrwydd yn y cyfnod cyn etholiadau'r Senedd.

Bydd adroddiad perfformiad nesaf y Bwrdd ar gyfer chwarter cyntaf 2026/2027 yn symud i'r fformat newydd o wahanu metrigau perfformiad a dangosyddion perfformiad allweddol oddi wrth y fformat mwy naratif o ddisgrifio gweithgaredd, effaith a dylanwad. Bydd yr effaith a'r naratif dylanwadol yn cael eu cynnwys yn yr adroddiadau chwarterol 'yr hyn rydym yn ei glywed'.